



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Ymateb i'r ymgynghoriad

Gweddnewid gofal yn y 21^{fed} ganrif



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill os oes angen. Mae fersiwn Saesneg ar gael hefyd.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir i Gweddnewid Gofal yn yr 21^{ain} Ganrif: Ymgynghoriad

1.1.1 Mae ein hymgyngoriad am newidiadau arfaethedig i'n ffioedd cofrestru, gofynion cymhwyster, cod ymarfer i gyflogwyr a rheolau addasrwydd i ymarfer wedi cau. Galwyd yr ymgynghoriad, a oedd yn agored am 12 wythnos rhwng 24 Gorffennaf ac 16 Hydref 2017, yn Gweddnewid Gofal yn yr 21^{ain} Ganrif: Dogfen ymgynghori.

1.1.2 Gwnaethom bopeth y gallem i wneud yn siŵr fod y rheiny a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig yn cael cyfle i roi sylwadau. Fe wnaethom:

- anfon y ddogfen ymgynghori at dros 12,000 o bobl
- rhoi'r ddogfen mewn lle amlwg ar ein gwefan
- anfon nodiadau atgoffa rheolaidd i annog pobl i gymryd rhan
- cynnal gweminarau a gweithdai i helpu pobl i ddeall y newidiadau arfaethedig
- rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn ein cylchlythyrau
- anfon gwybodaeth am yr ymgynghoriad at unigolion cofrestredig a chyflogwyr

1.1.3 Roedd y ddogfen ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac mewn fformat hawdd ei ddarllen. Fe wnaethom gynnig fersiynau eraill ar gais hefyd. Fe wnaethom hefyd dderbyn ymatebion na chyflwynwyd trwy brif wefan yr arolwg.

2. Crynodeb o ymatebion

- 2.1.1 Cawsom 210 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hyn yn fwy nag yr oeddem yn ei ddisgwyl ac yn fwy na nifer yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer ymgynghoriadau diweddar eraill.¹
- 2.1.2 O'r rheiny a ymatebodd, dywedodd 150 o bobl eu bod yn ymateb fel unigolion, a dywedodd 60 o bobl eu bod yn cynrychioli safbwyntiau sefydliadau. Defnyddiodd ychydig dros hanner ohonynt Survey Monkey i gyflwyno ymatebion, sef y dull roeddem yn ei ffafrio. Anfonodd y gweddill eu hymatebion i'n blwch llythyrau neu at aelodau o staff Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 2.1.3 O'r wybodaeth sydd ar gael, gwyddom:
- fod nifer fwyaf yr ymatebion gan unigolion wedi dod gan weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal
 - fod nifer fwyaf yr ymatebion gan sefydliadau wedi dod gan gyflogwyr ac awdurdodau lleol
 - mai myfyrwyr, gweithwyr gofal cartref a'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau oedd â'r cyfraddau ymateb isaf ar gyfer unigolion
 - mai darparwyr dysgu oedd â'r gyfradd ymateb isaf ar gyfer sefydliadau.
- 2.1.4 Fe wnaethom fanteisio ar gyfleoedd eraill i gasglu barn o'r sector trwy gydol y cyfnod ymgynghori 12 wythnos ac ni wnaethom ddibynnu ar ymatebion i'r ymgynghoriad yn unig. O ganlyniad, mae gennym ddealltwriaeth gref erbyn hyn o'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf a'r pethau y mae pobl am i ni eu gwneud i helpu os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion.
- 2.1.5 Gofynnwyd i bobl roi sylwadau ar bedwar maes. Caiff y rhain eu crynhoi yn yr adrannau isod:
- Adran 3 – Newidiadau arfaethedig i ffioedd
Adran 4 – Newidiadau arfaethedig i ofynion cymhwyster
Adran 5 – Cod Ymarfer Drafft ar gyfer Cyflogwyr
Adran 6 – Newidiadau arfaethedig i Reolau Addaswydd i Ymarfer

Mae pob adran yn rhestru'r cwestiynau y gwnaethom eu gofyn ac yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd. Mae'r adran olaf yn amlinellu beth fydd yn digwydd nesaf.

¹ Derbyniwyd 14 o ymatebion yn unig i'r ymgynghoriad am Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru 2017.

3. Newidiadau arfaethedig i ffioedd

3.1 Fe wnaethom ofyn:

C1. A ydych chi'n cytuno bod dosbarthiad arfaethedig lefelau ffioedd ar draws y gwahanol grwpiau o weithwyr yn rhesymol?	
Yn cytuno bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn rhesymol	91 (43%)
Ddim yn cytuno bod y ffioedd arfaethedig yn rhesymol	74 (35%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	45 (22%)

C2. A yw'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd blynyddol i fodloni lefel y ffioedd yn 2022 yn rhesymol, yn eich barn chi?	
Yn cytuno bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd blynyddol i fodloni lefel y ffioedd yn 2022 yn rhesymol	76 (36%)
Ddim yn cytuno bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd blynyddol i fodloni lefel y ffi yn 2022 yn rhesymol	73 (35%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	61 (29%)

- 3.1.1 Atebodd yr holl ymatebwyr y ddau gwestiwn cyntaf am y cynnydd arfaethedig yn ein ffioedd cofrestru. Nid yw'r ymgynghoriad wedi codi unrhyw bryderon ynglŷn â'r lefelau ffioedd ar gyfer grwpiau sydd eisoes wedi cofrestru.
- 3.1.2 Roedd nifer y bobl a oedd yn cytuno â chynigion am ein ffioedd yn is na chyfanswm nifer y bobl nad oeddent yn cytuno neu ddim yn gallu penderfynu. Archwiliwyd pam nad atebodd nifer sylweddol o ymatebwyr, rhag ofn bod hyn oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig. Mae ein dadansoddiad o'r sylwadau'n awgrymu nad atebodd y rhan fwyaf am fod ganddynt farn gymysg am y cynigion, yn hytrach na diffyg dealltwriaeth ohonynt, neu ddiddordeb ynddynt.
- 3.1.3 Gofynnem i bobl ddweud wrthym sut gallwn ni helpu'r sector i addasu yn unol â'r newidiadau. Cawsom awgrymiadau gan 159 o bobl; mae'r sylwadau'n cefnogi'r farn fod y rhan fwyaf o bobl wedi deall y cynigion.

3.1.4 Dyma ddetholiad o sylwadau gan y rheiny oedd o blaid y cynigion.

4.1.4 Sylwadau gan y rheiny oedd o blaid y cynigion

- Mae'r cynnydd i £80 mewn ffioedd cyffredinol ar gyfer gwaith cymdeithasol yn rhesymol. Mae ffioedd Rheolwr Gofal Cymdeithasol yn rhesymol.
- Credaf y dylid cofrestru cynifer o weithwyr gofal ag y bo modd i wneud y broses gyflogaeth yn well
- Ie. Mae cynyddu ffioedd yn raddol dros gyfnod yn syniad da.
- Bydd y dull graddol yn lleihau'r effaith uniongyrchol ar unigolion cofrestredig presennol ac yn y dyfodol.

3.1.5 Yr effaith ar recriwtio a chadw oedd y pryder mwyaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn anghytuno â chynigion, fel y dangoswyd gan y ffaith fod mwy o ymatebwyr wedi ei grybwyll, a natur eu sylwadau. Dywedodd llawer ohonynt fod lefelau cyllid a chyflogau presennol yn y sector yn anghynaliadwy ac fe wnaethant holi sut bydd modd talu am y cynnydd mewn ffioedd.

3.1.6 Dyma rai sylwadau heb eu golygu am y mater hwn:

Sylwadau am bryderon ynghylch recriwtio a chadw

- Ni chaiff y sector gofal cartref ei ariannu'n ddigonol ar hyn o bryd, ac mae gennym bryderon difrifol am effaith unrhyw ffi gofrestru
- Er fy mod yn eiriolwr cryf dros gofrestru gweithlu, mae'n bwysig nad yw cost cofrestriad unigol yn cael effaith negyddol ar y gweithlu ei hun. Y cyflogwr ddylai dalu cost cofrestru, ond rhaid ei ystyried hefyd o fewn costau ehangach gofal a chyfraddau talu gan gomisiynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Mae gweithlu GCC eisoes yn un o'r gweithluoedd mwyaf bregus, sut gellir rheoli risg effaith costau cynyddol
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol eisoes yn bobl nad ydynt yn cael eu talu'n ddigonol na'u gwerthfawrogi'n ddigonol. Mae gosod ffi ar weithwyr gofal i allu gweithio yn y sector yn annerbyniol a bydd hyn yn gyrru pobl allan o'r sector ac yn effeithio ymhellach ar recriwtio a chadw staff.

- 3.1.7 Nid oedd rhai ymatebwyr yn cytuno bod y dosbarthiad ffioedd arfaethedig ar draws y grwpiau yn deg. Holodd rhai a ddylai fod rhaid i rai grwpiau dalu o gwbl. Dywedodd pobl eraill fod y cynnydd mewn ffi yn annheg, ar y cyfan.
- 3.1.8 Awgrymodd rhai y dylid defnyddio cymhellion i gael pobl i gofrestru'n gynnar, gan gynnwys cael cyfnod 'dim ffi' neu gyfraddau gostyngol yn y blynyddoedd cyntaf.

Dyma ddetholiad o sylwadau am y mater hwn:

Sylwadau am gymhellion ar gyfer cofrestru'n gynnar

- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mai'r sector yw un o'r pum blaenoriaeth economaidd allweddol ar gyfer Cymru yn Ffyniant i Bawb. Yn yr amgylchiadau, byddem yn disgwyl gweld lefel uwch o gymhorthdal ar gyfer y ffioedd, yn enwedig yn ystod y cyfnod cofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Mae'n anodd cyfiawnhau pam y dylai gweithwyr gofal, a rheolwyr gofal cymdeithasol, wynebu'r baich yn sgil cynyddu ffioedd o ganlyniad i ymdrech wedi'i gyrru gan y Llywodraeth tuag at gofrestriad llawn. Os yw'r Llywodraeth yn teimlo bod hwn yn nod gwerth chweil, yna dylent fod yn barod i roi'r cyllid i sicrhau nad yw costau cofrestru yn disgyn ar ysgwyddau aelodau o'r gweithlu sy'n cael cyflog cymharol isel
- Er ein bod yn cydnabod y rhan y gall cofrestru ei chwarae mewn symud tuag at weithlu proffesiynol, mae gennym bryderon ynglŷn â rhoi baich ffioedd a chynnydd hirdymor mewn ffioedd ar weithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol.
- Ystyried cyfnod cofrestru am ddim, hyd at ryw adeg benodol, i annog pobl i gofrestru cyn y dyddiad cau. Gallai hyn helpu i atal nifer enfawr o staff rhag cofrestru ar yr un pryd ac achosi problemau gweinyddol, gan ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn aros tan yr amser olaf posibl i gofrestru.
- Beth yw'r cymhelliant i gofrestru'n gynnar – mae sefydliadau'n annhebygol o dalu ffioedd cofrestru – sut bydd GCC yn mynd ar drywydd taliadau?

- 3.1.9 Gofynnodd rhai am fanteision cofrestru, yn enwedig manteision i gyflogwyr a gweithwyr gofal cartref. Dyma sylwadau am hyn

Sylwadau am fanteision cofrestru

- Er ein bod yn cefnogi'r agenda ar gyfer proffesiynoli'r gweithlu, nid yw'n glir eto beth fydd cofrestru gwerth ychwanegol yn ei ddarparu naill ai i'r gweithiwr gofal cymdeithasol unigol neu'i gyflogwr, yn enwedig yn fuan ar ôl agor y gofrestr pan fydd gofyn i staff presennol ymuno
- Nid oes unrhyw beth i esbonio beth fydd unigolion yn ei gael am y ffioedd awgrymedig. Er enghraifft, pa fantais/gwerth ychwanegol y bydd gweithiwr cymdeithasol yn ei gael am ei £35 bob blwyddyn?
- Beth yw cost wirioneddol cofrestru; rhaid i 'r gost fod yn dryloyw – a ellir ailfuddsoddi gwarged i gefnogi rhaglenni sefydlu rhanbarthol i gysylltu â strategaeth GCC ar gyfer recriwtio a chadw?
- Mae angen amlygu manteision cofrestru i'r gweithiwr a'i gyflogwr. Beth yw'r cymhelliant dros gofrestru?

3.1.10 Cafwyd 159 o ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud i helpu'r sector i addasu yn unol â'r newidiadau arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf ohonynt ynglŷn â gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma ddetholiad o sylwadau:

Sylwadau am y cymorth sydd ei angen i gofrestru

- Sioeau ffordd gan GCC i weld y manteision – sefydlu is-grwpiau lleol a rhanbarthol i helpu i gynorthwyo darparwyr
- Taflenni/gwybodaeth/hysbysebion clir yn datgan am beth mae hyn. Dylai gwybodaeth fod yn gryno a dylid rhoi'r wybodaeth mewn ffordd gadarnhaol gan werthu'r manteision.
- Dylid codi proffil y sector gydag ymgyrchoedd Hysbysebu Cenedlaethol, fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r newidiadau a phroffesiynoldeb cynyddol y gweithlu. Dylid gwneud gweithwyr yn falch i weithio ym maes Gofal Cymdeithasol / Hysbysebu Gwell ar gyfer y newidiadau. Dylid dechrau trwy roi gwybod i'r cyhoedd bod gofalwyr yn cael eu gwerthfawrogi
- Cymorth ymarferol gydag amser wedi'i neilltuo ar gyfer astudio a chwblhau'r cymhwyster. Talu amser a threuliau.
- Sesiynau i gyflogwyr yn awr ynglŷn â sut i gynllunio ar gyfer proses y gwaith gweinyddol dan sylw a sut i reoli pethau fel PRTL.
- Fel gweithwyr proffesiynol, hoffem gadarnhad gweladwy o statws proffesiynol trwy fathodyn proffesiynol i gynnwys eu rhif cofrestru unigryw. Mae hyn yn cadarnhau'r proffesiynoldeb ar gyfer y gweithiwr a'r cyhoedd fel ei gilydd, ac mae'n rhoi hyder i'r cyhoedd mewn diogelu.

4. Newidiadau arfaethedig i ofynion cymhwyster

4.1.1 Mae Tablau 1-3 isod yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i gwestiynau am newidiadau i ofynion cymhwyster o blaid y cynigion.

Tabl 1

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r cymwysterau a restrir yn y Fframwaith Cymwysterau presennol ar gyfer gweithwyr gofal cartref ar gyfer cofrestru?	
Yn cytuno â'r cynnig	143 (68%)
Ddim yn cytuno â'r cynnig hwn	19 (9%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	48 (23%)

Tabl 2

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y byddwn yn defnyddio Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel gofyniad cychwynnol ar gyfer cofrestru i bobl nad ydynt eisoes yn meddu ar un o'r cymwysterau a restrir, ynghyd â chwblhau'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol llawn?	
Yn cytuno â'r cynnig	144 (69%)
Ddim yn cytuno â'r cynnig hwn	27 (13%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	39 (18%)

Tabl 3

Pan mae gweithwyr wedi defnyddio'r dyfarniad a'r fframwaith sefydlu i gofrestru, bydd angen iddynt gwblhau un o'r cymwysterau a restrir yn y cyfnod cofrestru cyntaf o dair blynedd. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?	
Yn cytuno â'r cynnig	140 (67%)
Ddim yn cytuno â'r cynnig hwn	29 (14%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	41 (19%)

- 4.1.2 Roedd llawer o ymatebwyr yn rhoi cefnogaeth lawn i osod gofyniad cymhwyster ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref. Dyma rai sylwadau:

Sylwadau am ofynion cymhwyster

- Rydw i'n cytuno'n gryf â'r rhan hon o'r cynnig, bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy ac mae'n hyrwyddo proffesiynoldeb yn gyffredinol.
- Mae UNSAIN yn croesawu'r argymhellion hyn fel man cychwyn. Mae UNSAIN wedi mynegi pryderon ers tro ynghylch absenoldeb hyfforddiant i weithwyr gofal cartref ac ansawdd gwael yr hyfforddiant pan mae ar gael. Fe wnaeth arolwg diweddar a gynhaliwyd gan UNSAIN ar hyfforddiant gofal cartref roi mewnwelediad syfrdanol i hyn. Mae gostyngiadau cyllid mewn cyllidebau gofal cymdeithasol er 2010 wedi cael effaith ddinistriol ar ansawdd gofal cartref ar gyfer pobl oeddrannus ac anabl ledled y DU. Rhoddwyd yr hyfforddiant angenrheidiol i lawer o weithwyr ym maes gofal cymdeithasol.
- Mae cyflwyno cymwysterau yn gam cadarnhaol a bydd yn helpu codi'r safon ar gyfer gweithwyr gofal o ran eu datblygiad eu hunain ac ar gyfer ymarfer. Fodd bynnag, dylid darparu cymorth digonol i gynorthwyo'r rheiny sydd efallai'n cael trafferth ag ennill y cymwysterau newydd ac a allai gael eu rhwystro, ond sydd mewn gwirionedd yn weithwyr gofal rhagorol. Mae'n golygu sicrhau cydbwysedd o ran codi safonau ond nid ar draul colli gweithwyr rhagorol.

- 4.1.3 Cafwyd adborth cryf hefyd fod cael gofyniad gorfodol i bob gweithiwr ddilyn yr un fframwaith sefydlu yn gam cadarnhaol:

Sylwadau am y fframwaith sefydlu

- Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn safoni'r broses sefydlu a'r fethodoleg asesu a sicrhau ansawdd, gobeithio. Bydd yn rhaid i bob sefydliad gyflwyno'r sefydlu yn yr un ffordd sy'n gwneud recriwtio'n haws os ydym yn recriwtio staff o asiantaethau gofal cymdeithasol eraill; byddwn yn gwybod beth yw lefel y sefydlu y maent yn ymgymryd ag ef, ac felly ni fydd gofyn i unigolion ymgymryd â'r sefydlu llawn eto, gan felly leihau dyblygu a chostau
- Credaf y bydd hyn yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfnod sefydlu manwl ni waeth pwy yw eu cyflogwr – h.y. gwelliant go iawn ar y sefyllfa bresennol.

4.1.4 Fodd bynnag, fe wnaethom nodi dau faes pryder i'w hystyried wrth i ni symud tuag at gofrestru gweithwyr gofal cartref, sef:

1. y baich ariannol ychwanegol ar gyflogwyr
2. y pwysau ychwanegol ar recriwtio a chadw a achosir gan weithwyr, yn enwedig gweithwyr hŷn sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir, sy'n penderfynu gadael y sector yn hytrach na dilyn cymhwyster

4.1.5 Er bod cefnogaeth helaeth ar gyfer defnyddio cymwysterau i broffesiynoli'r sector, rhybuddiodd llawer o bobl y dylid bod yn ofalus o ran sut rydym yn mynd ati i'w cyflwyno, gan amlygu problemau posibl. Dywedodd rhai pobl nad yw gwaith gofal yn cynnig llwybr gyrfa ac nad yw'n broffesiwn sy'n cael ei werthfawrogi a'i barchu. Dywedant fod hyn yn arwain at anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithwyr.

4.1.6 Mynegodd rhai pobl deimladau cryf y byddai'n well gan lawer o weithwyr adael y sector na dilyn cymhwyster.

Pryderon am gymwysterau

- Nid oes diddordeb mewn dilyn cymwysterau gan y boblogaeth hŷn sy'n agosáu at ymddeol.
- Cafodd llawer ohonynt eu siomi gan y system addysg ffurfiol a gadawsant yr ysgol heb lawer o gymwysterau ffurfiol, os o gwbl, ac mae hyd yn oed meddwl am ymgymryd â dysgu ffurfiol a galwedigaethol, hyd yn oed, yn peri gofid iddynt. Nid yw hyn yn golygu eu bod mewn unrhyw ffordd yn anaddas fel gweithwyr gofal. Mae gofal da yn seiliedig ar dosturi yn fwy na gwybodaeth. Nid oes gan ryw 60% o'n gweithlu presennol ddyfarniad lefel 2 ac rydym yn rhagweld y bydd nifer fawr, sy'n weithwyr gofal tosturiol a da, yn gadael y sector yn hytrach na dilyn y dyfarniad.

4.1.7 Mae problemau hefyd ynglŷn â'r canfyddiad y bydd angen i weithwyr gofal feddu ar allu academiaidd. Mae'n ymddangos bod ofnau wedi cael eu gwaethygu gan ofynion presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sgiliau hanfodol yn y fframweithiau prentisiaeth. Mae sylwadau'n cynnwys:

Sylwadau am gymwysterau a Sgiliau Hanfodol

- Rydw i'n cytuno mewn egwyddor – byddai'n fwy cyson ac yn gosod safon fod pob un o'r staff yn meddu ar y cymhwyster argymelledig, fodd bynnag, mae pryderon na fydd aelodau staff sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau llythrennedd digidol / rhifedd i ennill dyfarniad lefel 2.
- Mae'r materion hyn wedi cael eu hadrodd yn eang gan ddarparwyr dysgu a chyflogwyr fel ei gilydd, ac maent yn creu rhwystrau rhag ennill y cymwysterau gofynnol, yn ogystal â chanfyddiadau negyddol ac anghywir am y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan y rheiny sy'n dymuno ymgymryd â'r hyfforddiant i weithio mewn rolau cymorth gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hynod ddinistriol i hyder a hunan-barch y rheiny sy'n cael eu gorfodi i gwblhau'r 'profion'.

- 4.1.8 Roedd y gofyniad cymhwyster yn cael ei ystyried yn hynod broblemus i'r rheiny ar gontractau dim oriau a'r rheiny sy'n gweithio ychydig o oriau bob wythnos yn unig. Teimlwyd y gallent ei chael yn anodd cwblhau'r cymwysterau o fewn y cyfnod gofynnol.
- 4.1.9 Holodd rhai ymatebwyr pam mae'r cymhwyster arfaethedig yn cael ei osod ar lefel 2 ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gydag oedolion, pan mae'n lefel 3 ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y ffaith fod gofynion cymhwyster uwch na Lefel 2 gan rai meysydd o gyflwyno gwasanaethau – y gofyniad ar gyfer gweithwyr ieuchyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau yw lefel 3.
- 4.1.10 Dyma ddwy enghraifft o sylwadau a dderbyniwyd am hyn:

Sylwadau am lefelau cymhwyster a lleoliadau

- Mae anghenion oedolion yr un mor gymhleth ag anghenion plant.
 - Mae Lefel 3 yn fwy priodol ar gyfer gweithwyr gofal cartref o ganlyniad i natur ynysig eu gwaith.
- 4.1.11 Mynegodd rhai pobl bryder am y baich ariannol y gallai'r gofynion cymhwyster ei roi ar ddarparwyr. Cyfrifodd un ymatebwr y gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Sefydlu diwygiedig a byddai cymhwyster Dyfarniad yn arwain at gynnydd o naw i 14 diwrnod yn yr ystafell ddosbarth. Awgrymodd un arall y byddent yn codi £300 y pen i ymgymryd â'r dyfarniad a'r hyfforddiant. Roedd sylwadau'n cynnwys:

Sylwadau ar gymwysterau a baich ariannol

- Fy mhryder yma yw'r gost y bydd hyn yn ei rhoi ar gyflogwyr bach iawn os oes rhaid iddynt ariannu'r cymhwyster hwn gan ei fod wedi'i achredu. Os bydd cyllid ar gael, yna rydw i'n pryderu llai gan fy mod yn teimlo mai'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y dyfarniad i raddau helaeth yw'r pethau sylfaenol y byddech yn disgwyl i bob gweithiwr eu deall cyn iddynt weithio ar eu pen eu hunain. Os bydd y SCIF yn cael ei ddefnyddio wedyn i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd yn y gweithle, yna mae hyn yn gwneud synnwyr.
- Ni all gweithwyr sydd wedi cael eu cyflogi am amser hir gael cyllid prentisiaeth – byddai hyn yn creu problem i nifer sylweddol o weithwyr.

4.1.12 Teimlwyd bod lefel uchel y trosiant staff yn y sector yn ffactor ychwanegol yn hyn o beth, gan y byddai'n cynyddu nifer y gweithwyr y byddai angen mynd â nhw trwy'r cyfnod sefydlu a'r cymwysterau bob blwyddyn, gan arwain at gostau ychwanegol i ddarparwyr.

4.1.13 Roedd pryderon am y diffyg darparwyr dysgu sydd ar gael, gan danseilio ymdrechion i gymhwyso'r gweithlu. Ochr yn ochr â hyn, roedd pryderon na fydd cyrff dyfarnu'n gallu cyflwyno tystysgrifau'n ddigon cyflym i alluogi gweithwyr i gofrestru o fewn chwe mis.

4.1.14 Gofynnodd nifer o ymatebwyr beth fydd yn digwydd i weithwyr nad ydynt yn cwblhau'r cymhwyster gofynnol ac yn cofrestru o fewn y cyfnod penodol. Fe wnaethant holi hefyd beth fydd yn digwydd i'r rheiny sy'n newid swydd o fewn y tair blynedd a ganiateir ar gyfer cwblhau'r cymhwyster ymarfer. Nododd gweithwyr eraill y bydd angen cymorth arnynt i newid contractau cyflogaeth ac addasu polisïau prawf.

4.1.15 Roedd safbwyntiau cryf am yr angen am gyflogau uwch i adlewyrchu lefel cyfrifoldeb a chymhlethdod rolau gofal cymdeithasol – teimlai rhai ymatebwyr y gallai gosod gofyniad cymhwyster heb fynd i'r afael â'r broblem hon achosi i fwy o weithwyr adael y sector.

4.1.16 Cododd rhai pobl bryderon am ba mor dda y bydd y Fframwaith Sefydlu presennol a diwygiedig yn bodloni anghenion grwpiau ychwanegol o weithwyr sy'n dod o fewn y diffiniad 'gweithiwr gofal cymdeithasol', yn enwedig eiriolwyr ac arolygwyr.

5. Y Côt Ymarfer i Bobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

5.1 Fe wnaethom ofyn:

A yw'r safonau yn y Côt Ymarfer i Gyflogwyr yn rhesymol a chyflawnadwy i gyflogwyr, yn eich barn chi?	
Ydyn	165 (78%)
Nac ydyn	3 (2%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	42 (20%)

5.2 Ymatebion

5.2.1 Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, a dywedodd ymatebwyr fod y Côt arfaethedig:

Sylwadau am y Côt Cyflogwyr

- yn adlewyrchu arfer da presennol ac mae modd i gyflogwyr da ei gyflawni
- yn helpu gwneud adrannau AD yn ymwybodol o'r disgwyliadau a'r gofynion
- dylai fod ar gael i gyflogwyr a staff – fel bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- yn gofyn i orfodaeth fod yn ystyrlon

5.2.2 Gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau hefyd ynglŷn â sut gallwn wella'r Côt:

6.2 Awgrymiadau ar wella'r Côt

- yr angen am eglurder ar rolau a chyfrifoldebau priodol cyflogwyr, AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn y prosesau cofrestru ac addaswydd i ymarfer, h.y. pwy sy'n gwneud beth
- pryderon am gostau a heriau ymarferol bodloni gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Er y gallai fod modd i rai gweithwyr gyflawni 90 awr, i weithwyr eraill, fel y rheiny sy'n gweithio llai na 10 awr yr wythnos, mae'n ormodol, yn anghymesur a chostus
- yr angen am arweiniad clir ar yr hyn y gellir ei gynnwys yn y cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru
- dyblygu posibl rhwng y Côt a rheoliadau eraill, ac felly nid yw'n glir ymhle mae'n gweddu. Awgrym fod angen gwneud mwy i 'ddwyn ynghyd' ystod y gofynion ar gyflogwyr

5.2.3 Cafwyd ymatebion buddiol i'r cwestiwn am fylchau yn y Côt, ond nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod bylchau, neu ni roesant sylwadau.

A oes unrhyw fylchau yng nghynnwys y Côt Cyflogwyr, yn eich barn chi?	
Oes	20 (10%)
Nac oes	106 (50%)
Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	84 (40%)

5.2.4 Gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau penodol am newidiadau yr hoffent i ni eu gwneud, sef:

Awgrymiadau am newidiadau i'r Côt Cyflogwyr

- ailstyried teitl y Cod – mae Côt Cyflogwyr yn gliriach
- ystyried cysylltiad cryfach â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r arweiniad ar ddyletswydd didwylledd
- ystyried cynnwys ar adrodd am achosion a chydabod undebau
- ystyried cynnwys/cryfhau cynnwys ar hawliau dynol ac eirioli
- adolygu'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i wneud ystod lawn y gweithwyr gofal cymdeithasol yn glir

5.2.5 Materion eraill a nodwyd gennym:

- pryderon ymarferol am fynediad at gofnodion hyfforddiant/hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru gweithiwr gan y rheolwr/cyflogwr ac osgoi dyblygu
- pryderon ymarferol am systemau atgoffa ar gyfer rheolwyr am gofrestru

5.2.6 Enghreifftiau o sylwadau ar newidiadau arfaethedig:

Sylwadau am newidiadau arfaethedig i'r Côt Cyflogwyr

- Y rhain yw'r safonau rydym yn anelu at eu cyflawni ar hyn o bryd fel cyflogwr cyfrifol.
- Mae'n cefnogi'r hyn sydd/ddylai eisoes fod yn ymarfer bob dydd yn y sector gofal.
- Mae hon yn system newydd ac nid yw wedi cael ei phrofi o'r blaen, felly mae angen rhoi canllawiau clir i bawb dan sylw.
- Nid oes modd cyflawni'r llu o ddelfrydau uchel yn y Cod o ystyried y modelau comisiynu a'r lefelau talu presennol a ddefnyddir gan lawer o awdurdodau lleol.

5.2.7 Byddwn yn ystyried ffyrdd o ddwyn ynghyd ystod y gofynion ar gyfer cyflogwyr ac yn ystyried sut i gynorthwyo cyflogwyr mewn perthynas â deilliannau penodol, fel Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru (PRTL).

6. Newidiadau i'n Rheolau Addasrwydd i Ymarfer

6.1.1 Yn unol â'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, ni roddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr sylwadau ar newidiadau arfaethedig i'n rheolau Addasrwydd i Ymarfer, a amlinellir yn adran 6 yr ymgynghoriad. Mae crynodeb o ymatebion i'r ddau newid arfaethedig wedi'i amlinellu isod.

6.2 Newidiadau i Reolau Ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer 2017

6.2.1 Mae'r newid arfaethedig i'n Rheolau Addasrwydd i Ymarfer 2017 yn newid gweinyddol sy'n adlewyrchu'r bwriadau a amlinellir yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bu'r Ddeddf yn destun ymgynghori helaeth. Rydym yn hyderus fod y rhan fwyaf o bobl yn deall ein hangen i wneud yn siŵr fod ein rheolau'n adlewyrchu'r Ddeddf ac nad oes unrhyw fylchau.

6.2.2 Rydym eisiau gwneud newid am ein bod wedi nodi bwlch a allai beryglu diogelwch y cyhoedd. Mae hyn, yn ein barn ni, yn cyfrif am nifer gymharol isel y sylwadau ar y newid arfaethedig i'n Rheolau Ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer 2017.

Rydym yn newid Rheolau Ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer 2017 i alluogi i ni wneud cyfeiriadau uniongyrchol at baneli addasrwydd i ymarfer ble mae'r mater sy'n destun ymchwiliad yn ymwneud â'r canlynol:

1. Euogfarn neu rybudd unigolyn cofrestredig o ran trosedd berthnasol
2. Cynnwys unigolyn cofrestredig mewn rhestr waharddedig
3. Penderfyniad gan gorff perthnasol i'r perwyl fod addasrwydd i ymarfer unigolyn cofrestredig yn cael ei amharu.

A oes gennych unrhyw sylwadau am y newid arfaethedig?

Oes	33 (16%)
Nac oes/Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	177 (84%)

6.2.3 O'r 16% a roddodd sylwadau, roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau. Cyfeiriodd rai ohonynt at faterion nad oeddent yn gysylltiedig a gofynnodd rhai ohonynt gwestiynau a oedd yn awgrymu diffyg gwybodaeth am ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Mae ein timau Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau eisoes yn cymryd camau i helpu'r sector i ddeall y prosesau addasrwydd i ymarfer a byddant yn gwneud nodyn o'r sylwadau hyn wrth iddynt barhau â'r gwaith hwn.

6.3 Newidiadau arfaethedig i'r broses gwysion tystion

6.3.1 Mae'r newid arfaethedig i'n rheolau mewn perthynas â gwysion tystion yn adlewyrchu diwygiad i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod ar waith ac ar gael i'r cyhoedd am sawl mis cyn i ni agor yr ymgynghoriad. Yn hytrach na gwneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal am wysion tystion, byddwn yn defnyddio'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol.

6.3.2 Fe wnaethom ofyn:

Rydym yn newid ein Rheolau Addasrwydd i Ymarfer 2017 fel bod ceisiadau am wysion tystion yn cael eu gwneud i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol, yn hytrach na'r Tribiwnlys Safonau Gofal.	
A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y newid arfaethedig?	
Oes	13 (6%)
Nac oes/ Ddim yn gwybod/hepgor/diduedd	197 (94%)

6.3.3 Roedd y rhan fwyaf o'r 6% a roddodd sylwadau yn cefnogi'r newidiadau. Cafwyd rhai sylwadau am faterion nad oeddent yn gysylltiedig, ac ymddengys fod dau ymatebwr wedi camddeall y cynnig. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r newid arfaethedig. Credwn fod hyn oherwydd bod y rhan fwyaf yn ei gydnabod fel newid gweinyddol ac na fydd yn cael unrhyw effaith ar y rhan fwyaf o bobl.

7. Crynodeb o'r camau nesaf

7.1.1 Rydym wedi ystyried yr holl adborth o'r ymgynghoriad. Mae'r adran hon yn dangos sut yr ydym wedi addasu ein cynigion yn sgil yr adborth hwn ac yn nodi'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

7.2 Ffioedd

7.2.1 Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, rydym yn mynd i cynyddu ein ffioedd cofrestru o fis Ebrill 2018. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad, ac eithrio ar gyfer y ffioedd i weithwyr gofal cymdeithasol – mae'r rhain yn is na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol. Mae'r ffioedd newydd wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

Ffioedd cofrestru o 2018				
Ffioedd ar gyfer pob rôl	Ffioedd blynyddol yn ôl blwyddyn			
	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Gweithiwr Cymdeithasol (cais, adnewyddu a blynyddol)	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr Cymdeithasol – Nid yw wedi Cymhwyso yn y DU (cais)	£350 (yn ogystal â ffi ychwanegol o £200 am brawf doniau os yw'r ymgeisydd yn gofyn)	£350 (yn ogystal â ffi ychwanegol o £200 am brawf doniau os yw'r ymgeisydd yn gofyn)	£350 (yn ogystal â ffi ychwanegol o £200 am brawf doniau os yw'r ymgeisydd yn gofyn)	£350 (yn ogystal â ffi ychwanegol o £200 am brawf doniau os yw'r ymgeisydd yn gofyn)
Rheolwr Gofal Cymdeithasol (cais, adnewyddu, blynyddol)	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr Gofal Cymdeithasol (cais, adnewyddu a blynyddol)	£15	£20	£25	£30
Myfyriwr Gwaith Cymdeithasol (cais a blynyddol)	£15	£15	£15	£15
Dychwelyd i Ymarfer	£200	£200	£200	£200

7.3 Cymwysterau

- 7.3.1 Rydym yn bwrw ymlaen â'r newidiadau i'n gofynion cymhwyster a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ar ôl ystyried pa mor gryf oedd y teimladau ynglŷn â rhai o'r newidiadau hyn, rydym yn mynd i addasu ein hymagwedd yn y ffyrdd canlynol:
- 7.3.1.1 Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020, pan ddaw cofrestru'n orfodol i weithwyr gofal cartref, rydym yn mynd i dderbyn y cymwysterau canlynol ar gyfer cofrestru:
- Naill ai cymhwyster llawn a restrir ar y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol; neu
 - Dyfarniad Lefel 2 ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a datganiad o gymhwysedd wedi'i lofnodi gan reolwr cofrestredig; neu
 - Ddatganiad o gymhwysedd wedi'i lofnodi gan y rheolwr cofrestredig wedi'i gefnogi gan dystiolaeth o wybodaeth a sgiliau perthnasol ar gyfer gweithwyr sydd â 3 blynedd neu fwy o brofiad.
- 7.3.1.2 Rydym yn mynd i ychwanegu cymwysterau iechyd at y rhestr o gymwysterau gofynnol ble ceir cynnwys cyffredin. Byddai angen cynnal ymarfer cwmpasu i nodi pob un o'r rhain, ond byddent yn cynnwys:
- Diploma Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Clinigol Lefel 2 a 3
 - Diploma Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol Lefel 3
 - Diploma Gweithiwr Cymorth Ffisiotherapi Lefel 3
- 7.3.1.3 Rydym yn mynd i ychwanegu cymwysterau perthnasol eraill, i gyd-fynd â chwblhau'r Fframwaith Sefydlu
- Gradd mewn Nyrsio
 - Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol
- 7.3.1.4 Rydym wedi penderfynu na fydd gofyniad cymhwyster pellach ar gyfer y rheiny sy'n cofrestru erbyn diwedd mis Mawrth 2020 sy'n defnyddio un o'r llwybrau uchod. Bydd gofynion Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru yn berthnasol ar gyfer dysgu parhaus.
- 7.3.1.5 Ar ôl 2020 bydd angen i weithwyr newydd gofrestru o fewn 6 mis i'w dyddiad dechrau. I gofrestru, bydd angen iddynt gwblhau Cymhwyster Craidd Lefel 2 (rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau sy'n cwmpasu cyfnod sefydlu) a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Bydd gofyn iddynt gwblhau cymhwyster o fewn y cyfnod cofrestru tair blynedd cyntaf, cyn iddynt adnewyddu eu cofrestriad.
- 7.3.1.6 Rydym yn mynd i flaenoriaethu cyllid i'r Dyfarniad ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol.

7.4 Côt Ymarfer i Gyflogwyr

- 7.4.1 Rydym yn mynd i ddiwygio'r Côt Ymarfer i Gyflogwyr i adlewyrchu rhai o'r awgrymiadau buddiol a gawsom gan ymatebwyr, Bydd y fersiwn ddiwygiedig ar gael yn 2018.

7.5 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru

- 7.5.1 Rydym yn mynd i ddiwygio ein Rheolau Ymchwilio Addaswydd i Ymarfer 2017 i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwysion tystion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad. Rydym hefyd yn mynd i newid ein Rheolau Cofrestru 2017 i adlewyrchu'r newidiadau i'n ffioedd a'n gofynion cofrestru.